


CERAMIC SERIES

GEOFFREY FULLER

by Josie Walter



Once falsely described as a 'Folk Potter', Geoffrey Fuller has no time for the labels that people try to attach to himself or his pots. It is, of course, far more comforting to be able to place work in a particular category, to feel that you have got to grips with where a pot fits into the order and scheme of things, but Geoffrey will have none of this. He does applaud the Folk Potters — he admires the vigour, the sureness and skill with which they made their pots, and envies the reassuring certainty that comes from working within a tradition. There is no need to question a process which has proved trustworthy through several generations, and where there is no demand for change. These Potters knew the simplest and easiest way to do things, they knew what people wanted and fulfilled a need. It is when the vagaries of fashion put demands for change on such traditions that they falter and lose the very spirit that has made their work so successful. Trained within the tradition, Folk Potters have no need for Art Schools, but today, that is the root of most contemporary potters' development. Geoffrey is no exception, and began his making at Farnham College of Art in Surrey.

Geoffrey showed an interest in pottery early in his life when he started to collect Staffordshire Figures whilst a Librarian, his first career. In those days 2s. 6d. could buy a good figure, or perhaps as much as £2 for a pair. It seemed that no-one was interested in these pieces, and they were easy to find on the markets, and in the junk and antique shops of Chesterfield and Sheffield. He still buys antique pots today, rarely contemporary ones. He sells some too, as he feels that after having seen a piece and absorbed what it has to offer, he can then afford to part with it.

For four years at Art School as a mature student, Geoffrey worked hard to grow speedily from no knowledge through to amassing a vast amount of ceramic experience. His first love was saltglaze, and techniques, clay and kilns filled his time. He stayed on for

a fourth year as ceramic technician, and then a number of circumstances conspired to avert his intention. Whilst visiting the V&A he came upon a Middle Eastern dish, cream, with a green pattern, that was so fresh and bright, and so different to the stoneware he had become accustomed to. The clay he had been using for saltglazing at Farnham became difficult to manufacture, as the Leeds fireclay, an essential ingredient to the recipe, became difficult to get hold of.


At the Potters camp at Losely, Geoffrey was demonstrating the making of ocarinas, in earthenware. Independently, Paul Barron told him, 'You have a feel for earthenware. You should be making earthenware!' — and Anita Hoy, with some surprise, said that even though he had been working in saltglaze, she had always thought that his shapes were earthenware shapes.

Looking back over the years, Geoffrey muses that although satisfied with the direction his work has taken, he still maintains that saltglaze was a much easier medium to work in.

'There are a lot of technical difficulties with earthenware to be overcome, and no gifts from the kiln. You only get out what you put in! Earthenware is ornate and rich compared to the cool colours associated with stoneware, but you have to be cunning in the application of slips and glazes, where overlapping layers of the slips that have been poured and brushed create movement and excitement. It's a hard task to achieve.' Techniques of saltglaze have been unquestionably useful in his treatment of earthenware. In saltglazing, pots are wadded so that the saltglaze can get underneath, and continue the rich and varied surface. After handling some Devon harvest jugs of the mid 19th Century, Geoffrey saw that they too had been slipped and glazed, and put straight onto the shelf without wiping. The two ideas gelled, and he fires his hollow ware on triangular strips of biscuit fired clay, which act as kiln props. (The props can be knocked off quite easily after firing.) To extend the homogeneous look to the pot, slip is also brushed around the inside at the top, so that the colour runs over the rim and into the pot. The pots are thrown with soft clay on a slow wheel, using a wooden wheel head and a few wooden tools. They are once fired to 1060 to complement the soft finish. He isn't in favour of high fired earthenware trying to be a poor man's stoneware. In fact he feels that people today are obsessed by stoneware, that they have become unaccustomed to looking at earthenware, and consequently it has become a disregarded art form. On the window sill in front of Geoffrey's wheel stands a plant in a green glazed plant pot, a little Swedish whistle that he found in a junk shop in Farnham, and two strong Medieval handles. Many try to label Geoffrey a 'Medieval Potter', and indeed, he is very excited by the qualities of Medieval pots, but again he shrugs off this label. The most interesting aspect of the Medieval work for him is encapsulated in the quality of those two handles.

Whilst a student at Farnham, he continually found himself reacting in opposition to the mainstream. Many students finished handles with either the 'swallowtail' or the thumbprint, without, he felt, any real thought of whether it suited the pot, or if it was a feasible thing to do.

Geoffrey never uses a thumb print, and always pulls handles on the pot. In fact, he does more work on the handle than at first appears. He keeps the work simple, but the simplicity of the finish and decoration can often be deceptive.



The only tools that Geoffrey buys are his brushes. They are generally thick and soft, used both for slipping and glazing. They also tend to be large and generous in size. He doesn't like to feel too much in control, he thinks that with a smaller brush his work could become too 'finicky'. One of the more unusual brushes, a startling three tufted affair, made from an old sweeping broom rescued from a skip, has the ingenious advantage of producing three lines of slip at the same time. Otherwise, natural sponges, handmade throwing ribs, two twisted wires made from picture hanging wire and a loose thread for throwing off the hump form his tool kit.

As a student, Geoffrey felt that it wasn't until the third kiln of his third year that he achieved something that he could call a pot, which proves one of his maxims. If you keep at it, you'll eventually get somewhere! He feels that young potters are too affected by novelty, for the need to produce something different, and that they don't give themselves enough time to learn anything. Although he made coiled figures at College, his first horseman figure appeared while he was teaching part time at Chesterfield. Since then, figures, horses, houses, boats, mermaids and greyhounds have formed a focus of attention in any of his exhibitions. They reflect Geoffrey's rural background, his enjoyment of clay, and the fun he has in assembling and working the surfaces.

The figures are made from wrapped around clay slabs, sat either on their own, or engaged in conversation under trees, or with a picnic spread out between them. It must be clear that the naked figures you see are not Adam and Eve, this is not the Garden of Eden. Geoffrey makes this quite clear by putting a belly button on each (Do you remember? Adam was made from clay, and Eve from his rib. They weren't 'born' as such, and therefore have no navel.) Clothes would date the figures, these are basic human beings, where the man is recognised by a beard or a hat, and genitals, and the woman by her breasts — not overtly sexual appendages, but whether this is exactly by design, or because they are formed by the impression made by a golf tee, it is hard to ascertain behind the twinkle in Mr Fuller's eye! More prominent are the hands of the figures, this is the part of the body that really absorbs him most.

Geoffrey works from the front of his figures, reflecting his fascination with the chimney pieces made so beautifully, simply and cheaply by the Staffordshire Potters. Some of the pieces have animals or people gliding above, pinioned to a rod of clay. These reflect his interest in the ethereal floating figures of William Blake and other early 19th Century mystic painters, while at the same time, utilizing one of the many techniques of the Staffordshire pot makers.

Geoffrey and his wife Pat, have recently moved into new premises, the Three Stages Public House at Wardlow Mires in Derbyshire. In between renovating the Pub, attracting customers by their interesting menu culled from the pages of '400 Years of English Cooking', instigating a range of standard ware (plates, bowls, mugs and teabowls) made by their assistant, Paul McCallister and decorated by Geoffrey, the last year has given him little time for developing his own work.

However, plans for converting the room above the workshop into a showroom, the possibility of running courses in clay and about pots, have come nearer. They want to create more working space, both for Geoffrey and for Pat, a potter in her own right. There is also talk of building a salt kiln. The new premises have certainly opened up exciting possibilities for Geoffrey's future pot making...



GYFRES GERAMIC

 GEOFFREY FULLER

gan Josie Walter



Does gan Geoffrey Fuller, y cyfeiriwyd ato'n gyfeiliornus ar un achlysur fel 'Crochenydd Gwerin', ddim amynedd gyda'r labeli y mae pobl yn ceisio eu gosod arno ef ac ar ei waith. Wrth gwrs, mae pethau'n llawer mwy cyfforddus pan allwn osod gwaith mewn categori arbennig a theimlo ein bod wedi penderfynu ble mae llestr yn perthyn yn nhreftn a chynllun pethau, ond does gan Geoffrey ddim diddordeb yn hynny. Yn ddigon naturiol mae'n cymeradwyo gwaith Crochenyddion Gwerin - mae'n edmygu eu hegni, eu sicrwydd a'u medr wrth lunio eu llestri, ac mae'n eiddigeddus o'r sicrwydd cysurlon sy'n dod wrth weithio o fewn i draddodiad. Does dim rhaid cwestiynu proses sydd wedi profi drwy genedlaethau lawer ei bod yn gwbl ddibynadwy. Roedd y crochenyddion hyn yn gyfarwydd â'r ffordd symarf a rhwyddaf o wneud pethau. Gwyddent beth oedd ei angen ar bobl a byddent yn cyflawni'r anghenion hynny. Dim ond pan fyddai mympwyon ffasiwn yn pwysio am newid mewn traddodiadau o'r fath y byddent yn methu, ac yn colli gafael ar yr union ysbryd sydd wedi gwneud eu gwaith mor llwyddiannus. Gan eu bod wedi eu

hyfforddi o fewn y traddodiad nid oes angen Colegau Celf ar Grochenyddion Gwerin, ond heddiw o Golegau Celf y mae datblygiad y rhan fwyaf o grochenyddion cyfoes yn tarddu. Nid yw Geoffrey yn eithriad yn hynny o beth, ac yng Ngholeg Celf Farnham yn Surrey y dechreuodd ef ar ei waith.


Roedd gan Geoffrey ddiddordeb mewn crochenwaith yn gynnar yn ei oes a dechreuodd gasglu Ffigurau Swydd Stafford pan oedd yn gweithio yn ei swydd gyntaf fel llyfrgellydd. Bryd hynny gellid prynu ffir da am hanner coron, neu gellid gwario cymaint â dwy bunt am bâr. Yn ôl pob golwg doedd gan neb ddiddordeb mewn pethau o'r fath, ac roedd hi'n ddigon hawdd cael gafaol arnynt mewn marchnadoedd ac mewn siopau hen bethau yn Chesterfield a Sheffield. Mae'n dal i brynu hen botiau hyd heddiw; anaml iawn y bydd yn prynu rhai cyfoes. Bydd yn gwerthu rhai ohonynt hefyd gan ei fod yn credu y gall fforddio i wneud hynny wedi iddo ddod yn gyfarwydd â hwy a derbyn yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig.

Yn ystod ei bedair blynedd yn y Coleg Celf fel myfyriwr hŷn, gweithiodd Geoffrey yn galed nes datblygu'n gyflym o sefyllfa pan nad oedd gando ddim gwybodaeth nes ei fod wedi cronni cryn swm o brofiad ym myd cerameg. Gwydredd halen oedd ei hoffter cyntaf ac roedd techneg, clai ac odynnau yn mynd â'i fryd yn llwyr. Arhosodd yn y coleg am bedwaredd blwyddyn fel technegydd cerameg, ac yna daeth cyfuniad o amgylchiadau i'w arwain oddi ar ei drywydd. Tra'n ymweld ag Amgueddfa Fictoria ac Albert sylwedd ar lestr o'r Dwyrain Canol, un lliw hufen gyda phatrwm gwyrdd a oedd yn ffres a disgrair ac yn gwbl wahanol i'r crochenwaith caled yr oedd wedi ymgynfarwyddo ag ef. Aeth y clai y bu'n ei ddefnyddio ar gyfer gwydredd halen yn Farnham yn anodd i'w gynhyrchu gan fod clai tân Leeds a oedd yn un o gynhwysion hanfodol y rysait, yn anodd ei gael.

Pan oedd Geoffrey yn y gwersyll crochenyddion yn Losley yn arddangos sut i gynhyrchu 'ocharinas' o glai llestri pridd, dywedodd Paul Barron wrtho, 'Mae gen ti ymdeimlad at drin llestri pridd. Fe ddylet ti fod yn gweithio yn y maes hwnnw!' Ar yr un pryd, ac yn gwbl annibynnol, dywedodd Anita Hoy, mewn peth syndod, ei bod hi bob amser wedi bod o'r farn mai ffurflau llestri pridd oedd ei ffurflau er ei fod wedi bod yn gweithio gyda gwydredd halen.

Wrth fwrw golwg yn ôl dros y blynnyddoedd, mae Geoffrey yn dal o'r farn, er ei fod yn fodlon ar gyfeiriad ei waith, fod gwydredd halen yn gyfrwng llawer haws ei drin. 'Mae llawer o anawsterau technegol i'w goresgyn wrth ymdrin â llestri pridd, ac nid yw'r odyn yn gwneud unrhyw ffafr â dyn. Dim ond yr hyn a roi i mewn ynddi a ddaw allan!'

'Mae llestri pridd yn addurnol ac yn gyfoethog o'u cymharu â'r lliwiau tawel sy'n gysylltiedig â chrochenwaith caled, ond rhaid bod yn gyfrwys wrth ddefnyddio slipiau a gwydreddau, lle mae haenau o slip sy'n gorgyffwrdd wedi iddynt gael eu harllwys a'u brwsio yn creu symudiad a chyffro. Mae'n beth anodd i'w wneud.' Bu technegau gwydredd halen yn ddiamau yn ddefnyddiol iddo wrth drin llestri pridd. Wrth ddefnyddio gwydredd halen caiff y potiau eu wadio er mwyn i'r gwydredd halen allu mynd o danynt a pharhau'r arwyneb amrywiol a chyfoethog. Wrth iddo ymdrin â jygiau cynhaeaf o Ddifynaint a wnaed tua chanol y ganrif ddiwethaf, sylwedd Geoffrey fod slip a gwydredd wedi ei osod arnynt a'u bod wedi cael eu gosod yn syth ar silff heb gael eu sychu. Cyfunodd y ddau syniad ac mae'n tanio ei geunwyddau ar stribedi trionglog o glai 'bisged', sy'n gweithio fel propiau odyn. (Gellir bwrw'r propiau ymaith yn ddigon rhwydd ar ôl y tanio.) Er mwyn ymestyn unffurfiaeth ymddangosiad y llestr, caiff slip ei frwsio o amgylch y tu fewn i'w ymylon uchaf nes i'r lliw redeg dros yr ymyl ac i mewn i'r pot. Caiff y potiau eu llunio o glai meddal ar droell sy'n troi'n araf, gan ddefnyddio troell bren ac ychydig o offerynnau pren. Cânt eu tanio unwaith ar dymheredd o 1060 i gwblhau gorffeniad meddal y pot. Nid yw'n cytuno â'r arfer o danio llestri pridd ar dymheredd uchel er mwyn creu rhyw fath o grochenwaith caled ffug. Mewn gwirioneedd mae'n teimlo fod gan bobl heddiw obsesiwn ynglŷn â chrochenwaith caled a'u bod wedi colli'r arfer o edrych ar lestri pridd a'i bod o'r herwydd wedi mynd yn gelfyddyd a gaiff ei hanwybyddu. Ar silff y ffenestr o flaen troell Geoffrey mae planhigyn mewn llestr gwydreddog gwyrdd, chwibanogl fechan o Sweden y daeth o hyd iddi mewn siop yn gwerthu pob math o betheuach yn Farnham a dwy ddolen gref o'r Canol Oesoedd. Mae amryw yn ceisio labelu Geoffrey fel 'Crochenydd Canoloesol' ac, yn wir, caiff ei gyffroi yn fawr gan ansawdd llestri'r Canol Oesoedd, ond unwaith eto nid yw'n fodlon derbyn y label. Iddo ef mae agwedd fwyaf diddorol gwaith y Canol Oesoedd wedi ei ymgorffori yn ansawdd y ddwy ddolen.



Pan oedd yn fyfyrwr yn Farnham, roedd o hyd yn ei gael ei hun yn adweithio yn erbyn yr hyn oedd yn dderbyniol gan y mwyaf. Byddai llawer o fyfyrwyr yn cwblhau dolenni gyda naill ai 'gynffon gwennol' neu ôl bawd, a hynny, yn ei farn ef, heb roi unrhyw ystyriaeth i'w haddasrwydd ar gyfer y pot nac i'w hymarferoldeb. Ni fydd Geoffrey byth yn defnyddio ôl bawd a bydd bob amser yn 'tynnu' dolenni ar y pot. Yn wir, mae'n gwneud mwy o waith ar y dolenni nag y byddai rhywun yn tybio ar yr olwg gyntaf. Mae'n cadw'r gwaith yn syml, ond gall symylrwydd y gorffeniad a'r addurn fod yn gamarweiniol.

Yr unig offer y bydd Geoffrey yn eu prynu yw ei fwrsys. Fel rheol maent yn rhai trwchus a meddal a ddefnyddir ar gyfer slipiau a gwydreddau. Maent hefyd yn dueddol o fod yn fawr o ran maint. Nid yw'n hoffi teimlo fod ganddo ormod o reolaeth ac mae'n credu y byddai ei waith yn gallu bod yn 'furseinaidd' o ddefnyddio brws llai. Mae gan un o'r brwsys mwyaf anghyffredin, un rhyfedd gyda tri chydyn, a wnaed o hen frws llawr a achubwyd o sgip, y fantais gelfydd o allu cynhyrchu tair llinell o slip ar yr un pryd. Ac eithrio hynny, ysbryngau naturiol, ribiau taflu wedi eu gwneud â llaw, dwy wifren gordeddog a wnaed o wifren dal darluniau ac edefyn llac ar gyfer llunio amryw botiau o un talp mawr o glai yw gweddill ei offer.

Pan oedd yn fyfyrwr, teimlae Geoffrey mai dim ond ar ôl iddo lenwi'r odyn am y trydydd tro yn ystod ei drydedd blwyddyn y llwyddodd i gynhyrchu yr hyn y gallai ei alw'n llestr. Mae hynny'n ategu un o'i wirebau sef y daw llwyddiant yn y diwedd os yw rhywun yn barod i ddal ati. Teimlae fod yr ymdrech am newydd-deb a'r awydd i gynhyrchu rhywbeth gwahanol yn effeithio gormod ar grochenyddion ifainc, ac nad ydynt yn caniatu digon o amser iddynt eu hunain i ddysgu unrhyw beth. Er iddo gynhyrchu ffigurau torchog yn y coleg, ymddangosodd ei ffigurau marchog cyntaf pan oedd yn dysgu yn rhan amser yn Chesterfield. Ers hynny, mae ffigurau, ceffylau, tai, cychod, môr-forynion a milgwn wedi bod yn ganolbwyt llawer o'i arddangosfeydd. Maent yn adlewyrchu cefndir gwledig Geoffrey, y pleser a gaiff wrth drin clai a'r hwyl a ddaw yn sgil gweithio ar yr arwynebau. Gwneir y ffigurau o slabiau o glai wedi eu plygu ac fe'u gosodir i eistedd naill ai ar eu pennau eu hunain neu yn sgwrsio o dan goeden neu gyda phicnic wedi ei arlwyd rhyngddynt. Rhaid deall nad Adda ac Efa yw'r ffigurau noeth a welir ac nad Gardd Eden mo'r cefndir. Gwna Geoffrey hynny'n ddigon amlwg drwy roi botwm bol i'r dda. (Mae'n debyg y cofiwch i Adda gael ei lunio o glai ac i Efa gael ei llunio o'i asen yntau. Chawson nhw mo'u geni yn yr ystyr arferol, ac felly doedd ganddyn nhw ddim botymau bol.) Byddai rhoi dillad ar y ffigurau yn eu dyddio. Bodau dynol sylfaenol yw'r rhain lle gellir adnabod y dyn oddi wrth ei farf neu ei het a'i organau cenhedlu, a'r wraig oddi wrth ei bronau - sydd ddim yn ychwanegiadau rhywiol amlwg, ond nid yw'n hawdd penderfynu wrth weld y wên yn llygaid Mr. Fuller, pa un ai rhywbeth bwriadol yw hyn, yntau'r ffaith mai drwy bwys o golff i'r clai y caint eu ffurfio sy'n gyfrifol am hynny! Mae dwylo'r ffigurau yn fwy amlwg; dyma'r rhan o'r corff sy'n ei ddiddori fwyaf.

Mae Geoffrey yn gweithio ar ochr flaen y ffigurau, gan adlewyrchu ei ddiddordeb mawr yn y llestri ar gyfer y silff ben Tân a gâi ei llunio mor gain a syml a rhad gan Grochenyddion Swydd Stafford. Mewn rhai eitemau ceir anifeiliaid neu bobl yn hofran uwchben, yn sount wrth roden glai. Mae'r rhain yn ddrych o'i ddiddordeb yn ffigurau hedegog William Blake a pheintwyr cyfriniol eraill dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, tra ar yr un pryd yn gwneud defnydd o un o amryfal dechnegau crochenyddion Swydd Stafford.

Symudodd Geoffrey a'i wraig Pat ychydig amser yn ôl i adeilad newydd, tafarn y Tri Charw yn Wardlow Mires, Swydd Derby. Oherwydd ei brysurdeb yn adnewyddu'r safarn, yn denu cwsmeriaid gyda rhestr bwyydydd ddiddorol a gasglwyd o dudalennau '400 mlynedd o Goginio Seisnig', yn annog cynhyrchu ystod o lestri safonol (platiau, bowlenni, mygiau a dysglau te) a wneir gan ei gynorthwywr, Paul McCallister ac a arddunir gan Geoffrey, ychydig o amser a gafodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu ei waith ei hun.

Fodd bynnag, mae'r cynlluniau i addasu'r ystafell uwchben y gweithdy yn ystafell arddangos, a'r posibilrwydd o reded cyrsiau yn ymdrin â chlai a chrochenwaith, yn nes at gael eu gwireddu. Eu bwriad yw creu rhagor o le i weithio ynddo ar gyfer Geoffrey a Pat, sydd hefyd yn grochenydd. Maent yn sôn hefyd am adeiladu odyn halen. Yn sicr mae'r adeiladau newydd wedi agor y fordd i bosibiliadau cyffrous i chrochenwaith Geoffrey yn y dyfodol...

Josie Walter - Ionawr 1991